

Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc

Cyfarfod Y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc
Date: 28 Tachwedd 2017
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 5, Tŷ Hywel, y Cynulliad Cenedlaethol

Cadeirydd

Dr Dai Lloyd AC (Plaid Cymru)

Siaradwyr

Dr Phil Jones, Meddyg Ymgynghorol, Arweinydd Gwasanaethau Strôc yng Nghymru
Dr Raza Alikhan, Haematolegydd Ymgynghorol, Arweinydd Clinigol Ymchwil a Datblygu, BILI Caerdydd a'r Fro
Rhodri Davies, Pennaeth Dylanwadu a Chyfathrebu, y Gymdeithas Strôc

Yn bresennol:

Dr Anne Freeman OBE, Meddyg Ymgynghorol Anrhydeddus, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, cyn-Arweinydd Clinigol ar gyfer Strôc, Cymru
Philippa Ford MBE, Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus Cymru
Dr Richard Dewar, Meddyg Ymgynghorol /Arweinydd Strôc, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Nicola Davis-Job – Gofal Acíwt ac Arweinyddiaeth, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Nick Cann, goroeswr strôc, enillydd Gwobr LAS, Aelod o Bwyllgor Cynghori Cymru a Llysgennad/codwr arian ar gyfer y Gymdeithas Strôc
Rachel Jenkins, Rheolwr Cyfrif Lleol, Pfizer
Tommy Price, Cyfarwyddwr Cyfrifon, Pfizer
Martin Coombes, Materion Polisi a Llywodraeth, BMS
Juliet Morris, Polisi ac Ymchwil, Gofal a Thrwsio Cymru
Stephen Ray, Rheolwr Partneriaeth Iechyd, Bayer plc
Stephen Davies, Cydlynnydd Grwpiau Gweithredu Cyflyrau Newro a Strôc
Irina Erchova, Cynorthwy-ydd Ymchwil, Prifysgol Caerdydd, sydd wedi goroesi strôc
Chris Moore, Arweinydd Cymorth Clinigol, WAST
Sheila Tagholm, Cadeirydd Grŵp Cyfeirio Gogledd Cymru; Aelod Pwyllgor (y Gymdeithas Strôc)
David Fitzpatrick, goroeswr strôc a gwirfoddolwr
Jeff Harris, MBE o Gas-gwent, sydd wedi goroesi strôc
Haydn Canter, Gwirfoddolwr a Llysgennad, y Gymdeithas Strôc

Hefyd yn bresennol:

Llinos Wyn Parry, Pennaeth Gwasanaethau (Canolbarth a Gogledd Cymru), y Gymdeithas Strôc
Matt O'Grady, Swyddog Polisi ac Ymgyrchoedd, y Gymdeithas Strôc
Jillian Haynes, Ysgrifennydd y cofnodion, y Gymdeithas Strôc

Ymddiheuriadau

Llyr Gruffydd AC (Plaid Cymru)
Dr Shakeel Ahmad, Arweinydd Clinigol ar gyfer Strôc a Chyfarwyddwr y Rhaglen Hyfforddiant ar gyfer Strôc, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Ross Evans, Cyfarwyddwr Dros Dro'r Gymdeithas Strôc

Dr Fiona Jenkins, Cadeirydd Grŵp Cenedlaethol Cyflawni ar gyfer Strôc, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddor Iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Sue Beckman, Cyfarwyddwr yr Uned Gyflenwi
Catherine Quarrel, Rheolwr Comisiynu, Bwrdd Addysgu Powys
Ceri Williams, Arweinydd Polisi a Materion Cyhoeddus, Gofal Cymdeithasol Cymru
Caroline Walters, Swyddog Polisi, Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd
Joanne Oliver, Arweinydd Ymgysylltu Gwasanaeth Iechyd Cymru, Sefydliad Prydeinig y Galon
Trudie Lobhan, Sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol, y Gymdeithas Ffibriliad Atriaidd
Tina Donnelly, Cyfarwyddwr Coleg Nyrso Brenhinol Cymru:
James Barry, Arweinydd Clinigol, Rhwydwaith Cardiaidd Cymru Gyfan
Yr Athro Chris Jones, Cyfarwyddwr Meddygol (GIG Cymru) a Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru
Adam Fletcher, Pennaeth Sefydliad y Galon Cymru
Simon Hatch, Gofalwyr Cymru
Helen Hak, Therapydd Galwedigaethol Arweiniol Clinigol Strategol ar gyfer Strôc (BILI Aneurin Bevan)
Ele Hicks, Rheolwr Polisi, Diverse Cymru
Louis Fligelstone, Arbenigeddau Llawfeddygol, Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe Bro Morgannwg
Yr Athro Reg Morris, Hyfforddiant Seicoleg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Ruth Crowder, Swyddog Polisi Cymru, Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol
Fiona Hillen, Maeth a Dieteteg, BILI Cwm Taf,
Yr Athro Chris Burton, Pennaeth Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd, Prifysgol Bangor
Lorraine Morgan, Ymgynghorydd ar Heneiddio
Claire Butterworth, Ffisiotherapydd Arbenigol Clinigol - Strôc, BILI Caerdydd a'r Fro
Gary George, goroeswr strôc
John Heaton, goroeswr strôc
Sara Moran, Swyddog Ymgyrchoedd a Lleisiau Diabetes

Diben y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc

Cytunwyd ar y blaenoriaethau a'r canlyniadau sydd eu hangen ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol y flwyddyn hon, fel **gofal ôl-aciwt** (cymorth seicolegol a seiciatrig) ac **atal** (yn benodol, atal ffibriliad atrïaidd). Byddai **craffu ar y gwaith o weithredu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc** ar draws y byrddau iechyd hefyd yn bwnc parhaol. Bwriad y cyfarfod hwn oedd adolygu'r cynnydd o ran yr uchod, ac ystyried ymatebion a gafwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet i ohebiaeth a gyflwynwyd gan Dr Lloyd ar ran y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc.

1. Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniadau:

Croesawodd y Cadeirydd y cynrychiolwyr i'r cyfarfod, a'u cyflwyno. Nodir uchod yr ymddiheuriadau a ddaeth i law.

2. Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol:

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi gan yr aelodau fel adlewyrchiad cywir o gynnwys y cyfarfod.

3. Y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu:

Trafodwyd y camau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf.

Cadarnhaodd Dr Lloyd ei fod wedi ysgrifennu llythyrau at Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch sefydlu **unedau strôc hyperaciwt a thrombectomi**.

Dywedodd hefyd ei fod wedi cael ymateb ffurfiol gan Ysgrifennydd y Cabinet i'w ohebiaeth ar **ffibriliad atriaidd**, dyddiedig 24 Medi, a chyflwynodd ef, er gwybodaeth i'r rhai a oedd yn bresennol.

Hyd yma, nid oedd y Cadeirydd wedi cael ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet i'w ohebiaeth ynghylch **gwasanaethau strôc seicolegol a seiciatrig**.

4. Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect Stopio Strôc gan Dr Raza Alikhan

5. Trafodaeth ar ffibriliad atriaidd: y camau nesaf:

Cyflwynodd Dr Alikhan elfennau allweddol yr ymgyrch Stopio Strôc.

Roedd yr ystadegau nodedig a gyflwynwyd yn cynnwys: byddai person â FfA bum gwaith yn fwy tebygol o gael strôc na pherson nad oedd â FfA; mae menywod 1.5 gwaith yn fwy mewn perygl na dynion. Ym mis Tachwedd 2017, roedd chwe mil o gleifion â FfA mewn perygl o gael strôc (ystadegau Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru). Cafwyd cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru i feddygon teulu adolygu cleifion a oedd ar un therapi aspirin erbyn 31 Mawrth 2015. Datblygwyd offeryn archwilio, a'i ddefnyddio, ym mis Tachwedd 2017; dangosodd hwn fod 82 y cant o'r rheiny â FfA ar feddyginiaeth gwrthgeulo. Fodd bynnag, roedd un o bob pum person yn cymryd aspirin neu ddim meddyginiaeth o gwbl, a byddai'r bobl hynny yn cael eu hamlygu fel maes o bryder.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro oedd y bwrdd iechyd cyntaf yn y DU i gael taliad gwasanaeth uwch i feddygon teulu nodi cleifion sydd â gofynion strôc penodol. Roedd practisau wedi ymgymryd â hyn ar wahanol gyfraddau. Datblygwyd llwybrau i gefnogi gwasanaethau gofal sylfaenol a gweithredwyd rhaglenni addysgu. Yn 2012-5, roedd rhai cleifion yn cael trosglwyddo oddi ar aspirin.

Parhaodd Dr Alikhan, gan ddweud fod llawer o geisiadau gan fyrddau iechyd yn Lloegr i archwilio canlyniadau'r gwaith gyda chydweithwyr gofal sylfaenol, ac felly enwyd y Prosiect Stopio Strôc, a chrëwyd y wefan, sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ac ystadegau ar strôc. Mae hefyd elfen ryngweithiol i'r wefan, lle bydd atebion yn cael eu cynnig i ymholiadau o fewn pedwar diwrnod, er bod amseroedd ymateb cyfartalog yn llai na 24 awr.

Gofynnodd David Fitzpatrick a oedd unrhyw ddewisiadau amgen i aspirin. Atebodd Dr Alikhan fod aspirin yn lleihau'r posibilrwydd o strôc o 19 y cant, ond mae meddyginiaethau gwrthgeulo yn lleihau'r posibilrwydd hwnnw o 66 y cant. Roedd yn hanfodol bod prawf gwaed yn cael ei wneud cyn dechrau rhoi meddyginiaethau gwrthgeulo i gleifion. Defnyddiodd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yr offeryn archwilio ym mhob practis grŵp yng Nghymru, gan gasglu data gan glystyrau grŵp. O fis Rhagfyr, byddai'r dangosfwrdd yn diweddarau bob 24 awr, gan ddangos pa mor aml y bydd ffibriliad atriaidd yn cael ei amlygu ym mhob practis yng Nghymru. Fe'i profwyd am ddeunaw mis ac mae bellach ar gael ledled y byd.

Gofynnodd Ms Pippa Ford a oedd gwaith tebyg yn digwydd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig y gallai Cymru ddysgu oddi wrthynt, a rhannu gwybodaeth â nhw, er budd y ddwy ochr. Atebodd Dr Alikhan fod y gwaith yn parhau yn y DU yn gyffredinol; roedd meysydd o arfer da yng Nghymru a allai hefyd rannu deilliannau defnyddiol.

Awgrymodd Mr Jeff Harris ei bod yn ymddangos yn anodd gwneud diagnosis o ffibriliad atrïaidd. Dywedodd Dr Alikhan ei fod yn awyddus i weithio gyda'r Gymdeithas Strôc i annog gwiriadau pwls i ganfod anghysondebau o'r fath.

Nododd Matt O'Grady fod yr offeryn archwilio ar gael ledled Cymru, ond gofynnodd pa mor eang yr oedd y gwaith hwn wedi'i gyhoeddi ymhlith y byrddau iechyd. Dywedodd Dr Alikhan mai ysbeidiol fu'r cyhoeddusrwydd a roddwyd i'r offeryn, ond yr oedd ef wedi bwrw ati i chwilio am hyrwyddwyr i arwain y ffordd. Pan oedd ef ei hun ar gael, roedd yn fodlon i unrhyw un a oedd â diddordeb drafod strôc ag ef. Cytunodd Dr Jones fod hwn wedi bod yn waith cyffrous, arloesol, ac roedd y Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc wedi nodi pobl i drosglwyddo'r wybodaeth i bob bwrdd iechyd.

Dywedodd Dr Dewar fod y Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc wedi nodi ac ariannu'r gwaith hwn mewn practis grŵp yng Nghwm Taf, ac roedd hwn wedi datblygu i fod yn fodel cynaliadwy. Roedd cyllid ar gael i bob ardal gymryd rhan. Cafodd Dr Dewar ei siomi yn y penderfyniad a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch sgrinio ar gyfer FfA, yn enwedig gan fod y dull yn rhatach na sawl math arall o ddull atal strôc. Gallai gwirio pwysedd gwaed a phwls pob claf osgoi ffibriliad atrïaidd a oedd heb ei ddarganfod.

Gwahoddodd Rhodri Davies sylwadau ar yr hyn y gallai'r Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc ei wneud i gynorthwyo o ran codi ymwybyddiaeth o waith Dr Alikhan, ac awgrymodd y byddai ymgysylltu â byrddau iechyd yn hanfodol.

Awgrymodd Nicola Davis-Job y byddai ymgysylltu â'r 64 o arweinwyr clwstwr yn gam effeithiol.

Dywedodd Chris Moore fod cyllid wedi'i sicrhau yn 2015 i osod peiriant electrocardiograff yn uniongyrchol ar galonnau cleifion penodol mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, a'r gobaith oedd y byddai'r cyfleuster hwn yn cael ei gyflwyno mewn meddygfeydd meddygon teulu. Holodd David Fitzpatrick, gan fod y dull hwn wedi'i brofi i atal strôc, a fyddai'n bosibl penderfynu ynghylch yr ystadegau allweddol, yn enwedig o ran pobl sy'n dioddef o ffibriliad atrïaidd. Dywedodd Dr Dewar fod cwestiynau ychwanegol i'w gofyn ynghylch meddyginiaethau gwrthgeulo a ffibriliad atrïaidd. Byddai'n ddefnyddiol iawn pe bai modd profi bod y camau uchod yn atal strôc yn effeithiol.

Gofynnodd Haydn Canter a fyddai'n bosibl i berson lleyg ganfod ffibriliad atrïaidd. Dywedwyd y gallai pwls rhywun amlygu anghysondebau, a bod NICE yn argymhell darlennydd gwirio iechyd syml sy'n cysylltu â ffonau symudol; byddai modd cael darlleniad o'r prawf electrocardiograff o fewn deg eiliad gyda'r darlennydd hwn. Dywedodd Rhodri Davies nad yw'r cyfleuster hwn ar gael mewn sesiynau Gwybod eich Pwysedd Gwaed yng Nghymru, ond mae'n cael ei dreialu gan y sefydliad mewn rhannau eraill o'r DU. Mae sesiynau Gwybod eich Pwysedd Gwaed, fel y'u trefnir gan y Gymdeithas Strôc, yn cynorthwyo pobl drwy dynnu sylw at ddarlleniad pwysedd gwaed uchel neu isel. Gellir argymhell i'r claf wedyn ei fod yn ymweld â meddyg teulu.

Gofynnodd Irina Ercovaia, ar ôl faint o brofiadau o ffibriliad atrïaidd y byddai rhywun yn cael ei gynghori i gymryd cyffuriau gwrthgeulo, yn gyffredinol. Eglurwyd y byddai angen i bob claf gael ei asesu'n unigol o ran ei risg, a byddai'n rhaid i'r budd fod yn fwy na'r risgiau ym marn y meddyg.

Camau i'w cymryd: Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu llythyr o gefnogaeth i dynnu sylw at yr awgrymiadau a'r sylwadau a wnaed yma, ac a oedd hefyd yn cymeradwyo system cofnodi data Audit Plus. Byddai'n trafod y materion ymhellach gyda Dr Alikhan ac yn rhoi gwybodaeth i'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc, mewn ymdrech i ymgysylltu ag arweinwyr gweithredol.

6. Cynllun Peilot o ran Adolygiad Chwe Mis yng Nghaerdydd: cyflwyniad gan y Gymdeithas Strôc

Rhoddodd Rhodri Davies, ar ran Ross Evans, Cyfarwyddwr Dros Dro Cymru y Gymdeithas, wybod i'r Grŵp am gynnydd o ran adolygiadau chwe mis cleifion yn cael eu hintegreiddio fel gwasanaeth safonol ar gyfer cleifion strôc yn dilyn eu rhyddhau o'r ysbyty ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Dadansoddwyd y gwasanaeth o fis Ebrill 2016 hyd fis Mawrth 2017. Erbyn diwedd y prosiect, h.y. 31 Rhagfyr, rhagwelwyd y byddai cyfanswm o 94 o adolygiadau wedi cael eu cynnal. Canmolodd y clinigwyr waith y Gymdeithas Strôc a'u hymyrraeth yn y maes hwn.

Esboniodd Mr Davies fod gan y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc restr o flaenoriaethau allweddol. Mae cefnogaeth emosiynol yn dilyn rhyddhau o ysbyty yn un ohonynt, gan fod tystiolaeth yn dangos bod traean o oroeswyr strôc yn dioddef iselder ysbryd a bod dros hanner y cleifion yn dioddef pryder yn dilyn strôc. Teimlai 20 y cant nad oedd yr agwedd emosiynol ar strôc yn cael sylw, a theimlai deg y cant o gleifion nad oeddent wedi cael y gefnogaeth roedd ei hangen arnynt i dderbyn eu sefyllfa newydd.

I gloi, mae angen cyllid amlwg i ddarparu'r cyfleuster hwn fel gwasanaeth dilynol hanfodol yn y gymuned, gan y disgwylir i adolygiadau chwe mis ar ôl strôc gael eu cynnal o'r un cronfeydd cyllid, ochr yn ochr â gwasanaethau strôc eraill, mwy gweledol.

Awgrymwyd y dylai'r adolygiad chwe mis fod yn archwiliad cyfannol ac yn drafodaeth am les cyffredinol. Nododd teclyn cymorth SAT Manceinion 35 o feysydd problemus o angen cyffredin yn dilyn strôc, a oedd yn cynnwys cefnogaeth emosiynol.

Roedd hefyd yn bwysig nodi y gallai'r angen am gefnogaeth ddod yn amlwg gryn amser ar ôl yr adolygiad chwe mis, ac na allai grwpiau cefnogi cymhorthwyr / cynhalwyr o reidrydd ddiwallu'r angen.

Nid oedd modd ychwanegu'r adolygiadau a gwblhawyd at ddata SSNAP, ond y Gymdeithas Strôc a oedd yn gyfrifol am y data, a byddai'n cyflwyno adroddiad i'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc, ac yn rhannu'r canfyddiadau yn ehangach.

Awgrymodd Dr Anne Freeman y dylid llunio poster ar gyfer Cynhadledd Strôc Cymru sydd i'w chynnal ar 3-4 Gorffennaf 2018, lle bydd yr adolygiad chwe mis cyntaf ar ôl strôc yn bwnc trafod a drefnwyd ar gyfer sesiwn y bore.

CAM I'W GYMRYD: Byddai Dr Lloyd yn dilyn ymateb Ysgrifennydd y Cabinet i'r ohebiaeth a anfonwyd ar effeithiau seicolegol strôc.

7. Trafodaeth ar Therapiau Seicolegol

Gofynnodd Nicola Davis-Job am y fframwaith llywodraethu a diogelwch penderfyniadau clinigol. Dywedodd Rhodri Davies y byddai'n trosglwyddo ei chwestiwn i Gyfarwyddwr Dros Dro'r Gymdeithas Strôc.

Dywedodd Matt O'Grady mai'r weithdrefn oedd bod copi o'r adolygiad chwe mis yn cael ei anfon at y Meddyg Teulu, a byddai rhai meysydd yn cael eu hamlygu fel angen ar gyfer claf, er enghraifft cwnsela.

Gofynnodd Dr Anne Freeman a oedd y system yn cwmpasu pob agwedd a oedd yn destun adolygiad chwe mis SSNAP.

Canmolodd Irina Ercovaia y Gymdeithas Strôc am ddod â'r mater hwn i sylw'r Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc, ac awgrymodd y byddai adolygiad tymor hwy hefyd yn ddefnyddiol, yn ychwanegol at yr adolygiad chwe mis, gan y gallai iselder weithiau ddeillio o strôc ddeng mlynedd ar ei hôl. Caiff y bwlch hwn ei lenwi i raddau, ar hyn o bryd, gan gefnogaeth grŵp cyfoedion.

8. Cyflwyniad ar Gynllun Cyflawni ar gyfer Strôc Llywodraeth Cymru

Dywedodd Dr Jones fod Dr Fiona Jenkins yn absennol o'r cyfarfod gan ei bod mewn digwyddiad yn Llundain, wedi iddi gael ei henwebu ar gyfer ennill Gwobr Gwasanaeth Cyhoeddus y Guardian am Ragoriaeth ym maes Arweinyddiaeth.

Dywedodd hefyd fod y Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc yn gweithio'n agos gyda phartneriaid a sefydliadau i hyrwyddo byw yn iach (o dan y fenter Byw'n Dda) ac i wneud cynnydd o ran y Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc.

Roedd y Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc wedi cydweithio â'r rhaglen Inverse Care Law i dargedu demograffeg benodol, ac roedd wedi ariannu ymgyrch lwyddiannus ar y cyfryngau yng Nghwm Taf mewn cysylltiad ag Atal Strôc, gan gyrraedd 41 y cant o boblogaeth y bwrdd iechyd.

Roedd y Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc hefyd wedi ariannu'r prosiect Stopio Strôc ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, fel y disgrifiwyd uchod, i werthuso prosesau o adnabod pobl y gwyddys bod ganddynt ffibriliad atrïaidd. Roedd hwn yn flaenoriaeth gytunedig yn 2016-7. Y gobaith oedd y byddai'r fenter atal ffibriliad atrïaidd yn cael ei chyflwyno yn y byrddau iechyd a'i chefnogi ymhellach gan y sector gofal sylfaenol a'r rhwydwaith cardiaidd yn 2018-9, mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol. Nid oedd pyliau o Isgemia Dros Dro yn cael eu cofnodi, ond byddent yn cael eu cofnodi yn 2018, a châi hyn ei drafod gan y Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc ar 12 Rhagfyr.

Un testun trafod allweddol oedd ad-drefnu gwasanaethau strôc i gynnwys datblygu unedau strôc hyperaciwt. Nodwyd bod perfformiad yn ôl mesurau SSNAP wedi gwella yng Nghymru, ac ym mis Medi 2017 roedd gan Gymru bedair uned a oedd yn cyflawni gradd B ar gyfer gofal strôc cyffredinol.

Roedd y Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc hefyd wedi gweithio gyda'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Niwroleg, i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaeth adsefydlu cymunedol, ac roedd gwasanaeth newydd, a leolir ym Merthyr Tudful, wedi'i ddatblygu.

Datblygwyd llyfr cyfeirio newydd o'r enw 'Ail-adeiladu Eich Bywyd Ar ôl Strôc' ar y cyd â goroeswyr strôc a seicolegwyr.

Yn ddiweddar, lansiodd datblygiad seilwaith / rhwydwaith ymchwil strôc ar y cyd â Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd ar ffurf canolfan.

Adroddodd Dr Jones hefyd fod dadansoddiad o brofiad cleifion a mesurau canlyniadau ar waith, i'w gwblhau ym mis Rhagfyr 2017, a chrynhodd y blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer 2017-8.

Awgrymodd Martin Coombes na fyddai sgrinio cenedlaethol ar gyfer ffibriliad atrïaidd o reidrwydd yn effeithiol wrth gefnogi'r gwaith o atal strôc. Awgrymodd y byddai cefnogi arferion grŵp i godi ymwybyddiaeth o ran darganfod yn fwy effeithiol.

Gwahoddodd Dr. Alikhan awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid annog y boblogaeth i wneud eu gwiriadau pwls eu hunain; efallai mewn practisau meddygon teulu a fferyllfeydd. Wrth roi sylw i ymateb Ysgrifennydd y Cabinet i lythyr y Cadeirydd oedd yn sôn am ffibriliad atrïaidd, atebodd Rhodri Davies nad yw ef yn ymwybodol o unrhyw waith sy'n digwydd rhwng y Gymdeithas Strôc, PHW a'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, fel y nodwyd yn ei ymateb. Ychwanegodd, fodd bynnag, fod y Gymdeithas Strôc bellach yn rhan o grŵp llif gwaith ffibriliad atrïaidd Cymru gyfan, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaeth iechyd a'r trydydd sector. Cytunodd pawb fod codi proffil ffibriliad atrïaidd yn allweddol.

Rhoddodd Haydn Canter wybod bod ei strôc ef wedi digwydd oherwydd pwysedd gwaed uchel, ac nad oedd ganddo unrhyw syniad bod y cyflwr hwn arno, gan nad oedd wedi cael dim symptomau.

Awgrymwyd y gellid cynnal digwyddiadau Gwybod eich Pwysau Gwaed y Gymdeithas Strôc mewn canolfannau chwaraeon a stadiymau.

Holodd Jeff Harris a oedd angen i berson fod mewn cyflwr ffibriliad atrïaidd ar adeg benodol y darllen er mwyn ei ganfod. Atebodd Dr Alikhan y byddai ffibriliad atrïaidd parhaus yn bresennol yn barhaus.

Nododd Irina Ercovaia fod dull ar gael ar gyfer monitro ffibriliad atrïaidd drwy ddyfais a fewnosodir o dan y croen. Atebodd Dr Alikhan y byddai hwn yn ddull peryglus mewn rhai cleifion. Roedd cyffuriau gwrth-geulo yn cael eu rhagnodi ar gyfer wyth deg y cant o gleifion.

Nododd David Fitzpatrick nad oedd yn ymddangos bod rhannu data / cyfathrebu data personol yn digwydd yn effeithiol rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Dywedodd Dr Alikhan fod porth clinigol Cymru bellach yn fyw, ac y byddai'n mynd i'r afael â'r broblem hon. Roedd hon yn system chwyldroadol yng Nghymru, ond nid oedd ar gael yn Lloegr. Dywedodd Dr Dewar hefyd y byddai'r system yn dangos pob gohebiaeth rhwng gweithwyr proffesiynol, a dywedodd Dr Lloyd y byddai nodiadau gofal sylfaenol a gofal eilaidd yn cael eu cynnwys.

Gofynnodd Matt O'Grady a fyddai'r papur ar thrombectomi yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru fel papur cyhoeddus.

Ychwanegodd Rhodri Davies fod pecyn cymorth ffibriliadau atrïaidd da ar gael.

Awgrymwyd y dylid llwytho'r cyflwyniad uchod ar y wefan, os yn bosibl.

Camau i'w cymryd: Jillian Haynes i holi'r Swyddfa Gyflwyno a yw'n bosibl llwytho'r cyflwyniad ar y wefan.

9. Unrhyw fater arall

Cyflwynodd Rhodri Davies bapur ar y Cynllun Gofal Lles. Gofynnodd am i'r wybodaeth gael ei dosbarthu i gynifer â phosibl o bobl. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yma: <http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/LiveWell/LifestyleWellbeing/Winterhealthplan?locale=CY>

Ni thrafodwyd unrhyw fater arall.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc ar 6 Mawrth am 12:00 yn Ystafell Bwyllgora 5, Tŷ Hywel (i'w gadarnhau). Y pwnc i'w drafod fydd Therapi Iaith a Lleferydd. Byddai'r cyfarfod hefyd yn gyfle i gynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Nododd Dr Lloyd fod dyddiadau, amseroedd a lleoliadau cyfarfodydd nesaf y Grŵp, yn ogystal â chofnodion yr holl gyfarfodydd blaenorol, i'w gweld ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

Cymeradwywyd y cofnodion gan Dr Dai Lloyd AC fel cofnod cywir o gynnwys y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2017:

Llofnod:..... Dyddiad:
